**Gair byr gan Gadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Bro Plenydd**

***A short word by the Ysgol Bro Plenydd Chair of Governors***

Annwyl Rieni, *Dear Parents,*

Mae'n bleser gen i, ar ran Corff Llywodraethu Ysgol Bro Plenydd, gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Corff i chi fel rhieni. Ynddo, cewch drosolwg o waith yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, ei llwyddiannau, a'i hamcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn cynnal ein safonau arbennig, yn ogystal â herio ein hunain i ddatblygu ymhellach. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Pennaeth, Mrs Hughes, y staff addysgu a'r staff cynorthwyol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled dros y deuddeg mis diwethaf.

Mae Ysgol Bro Plenydd yn ysgol go arbennig gyda naws gartrefol a chynnes iddi a'r pwyslais ar roi'r dechrau gorau posib i'n plant ym myd addysg a'r Gymraeg er mwyn rhoi'r hyder a'r annibyniaeth i'r plant wrth eu meithrin a'u paratoi at addysg uwchradd a'r byd tu hwnt. Mae eich cyfraniad chi fel rhieni yn allweddol i hyn ac rydym yn ddiolchgar iawn i chi unwaith eto eleni am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf. Gobeithiaf yn wir y gallem barhau i gydweithio mor llwyddiannus dros y flwyddyn sydd i ddod.

"Gyda Dygnwch a Dysg fe Dyfwn"

*It is my pleasure on behalf of the Ysgol Bro Plenydd Governing Board to present to you as parents the Governor's Annual Report. In it you will see an overview of the school's work over the past year, its successes, and its aims for the next educational year in order to uphold our high standards as well as to challenge ourselves to develop further. First of all I would like to thank the Headteacher, Mrs Hughes, the teaching staff and the auxiliary staff for their commitment and hard work over the past twelve months.*

*Ysgol Bro Plenydd is quite a special school with a homely and warm feeling to it and its emphasis on giving the best possible start to children in the world of education and the Welsh Language so as to give the children the confidence and independence needed as they are nurtured and prepared for secondary education and beyond. Your contribution as parents is key in all this and we are very grateful to you once again this year for your constant support throughout the past year. I sincerely hope that we may continue to work together just as successfully in the coming year.*

*"Gyda Dygnwch a Dysg fe Dyfwn" – "With Perseverence and Learning we Grow"*

*Natalie Coles-Williams*